

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 29ain Ionawr, 2019
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt: Vera Jones
Rhif Ffôn Cyswllt: 01286 679267
Teitl yr Eitem: Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Papur Gwyn:
Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a
chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i ffurfio ymateb terfynol i'r ymgynghoriad uchod yn seiliedig ar yr ymateb drafft sydd wedi ei baratoi ar ran y Cyngor i'r Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru (Atodiad A), gan ymgorffori ac addasu yn unol ag unrhyw sylwadau gan aelodau'r Cabinet yn ystod y cyfarfod.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys ymateb y Cyngor i'r ddogfen ymgynghorol a bod y Cabinet wedi cael cyfle i roi mewnbwn i'r ddogfen.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Cyhoeddwyd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru – ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ar 13ed Tachwedd 2018. Mae'r ymgynghoriad yn gorffen ar 5 Chwefror 2019 ac felly angen ymateb erbyn hynny.

3.2 Mae'r papur yn ymgynghori ar bum prif elfen fel a ganlyn

- Y ddadl dros newid (ym Mhennod 1)
- Dylunio System Newydd (ym Mhennod 2)
- Llywodraethu ac Aelodaeth (ym Mhennod 3)
- Cyllido'r Awdurdod (ym Mhennod 4)
- Rheoli Perfformiad (ym Mhennod 5)

Gyda chwestiynau penodol wedi eu cynnwys fesul pennod.

Mae'r adroddiad yn Atodiad A yn amlinellu'r prif bwytau fesul pennod, y cwestiynnau y deisyfir atebion iddynt, ynghyd ag ymateb drafft Cyngor Gwynedd.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Ymateb yn ffurfiol ar ran y Cyngor cyn y dyddiad cau ar 5ed o Chwefror 2019.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cyd-weithio gyda'r awdur ar yr ymateb yma. O safbwynt y trefniadau democratiadd arfaethiedig mae union natur yr achos am newid, cyswllt rhwng yr achos hwnnw a'r newidiadau a gynnigir a gwireddu amcanion yn annodd i'w dilyn ar adegau. Mae hyn yn cael ei adleywrhcu yn yr atebion drafft.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac yn cefnogi'r cynnwys.

Yn yr ymateb i Bennod 4, cytunaf dylid adolygu trefniadau ariannu'r Gwasanaeth Tân, a byddai trefn praesept yn fwy tryloyw na'r ardoll gyfredol ar awdurdodau lleol y rhanbarth. Byddwn yn hapus i barhau i gasglu'r arian ar ran y Gwasanaeth Tân, wrth gwrs, ond dylai'r swm a'r cynnydd ymddangos ar wahân ar y bil treth cyngor, fel praeseptau'r heddlu a chynghorau cymuned. Trwy hynny, byddai'r Awdurdod Tân yn fwy atebol am ei wariant.

Yn adlewyrchu'r atebolrwydd hynny, rwyf hefyd yn cytuno gyda'r ymateb i Bennod 3, lle dywedir dylai penderfyniadau strategol a chyllidol fod yn nwylo aelodau etholedig ar yr Awdurdod Tân, yn hytrach nac yn nwylo'r prif swyddog tân.

Atodiadau